



DEWCH I 'NABOD...

Sôn am Lyfra sy'n holi'r
awdur

REBECCA ROBERTS

Diolch am y sgwrs!

FFEITHIAU FFLACH

Dyddiad geni: 02/07/85

Ganwyd yn: Y Rhyl

Byw yn: Prestatyn

Ffaith diddorol: Yn 2010 roeddwn i'n ffeinalydd ar sioe The Weakest Link.

Beth ydi dy gefndir a be ti'n wneud rŵan?

Enillais radd Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol o Brifysgol Bangor, ac yna astudiais i fod yn athrawes ysgol uwchradd. Fues i'n dysgu am gwpl o flynyddoedd, cyn symud ymlaen i weithio i Fenter Iaith Sir y Fflint am naw mlynedd. Ar hyn o bryd, rydw i'n gyfieithydd i Mudiad Meithrin, a hefyd yn cynnal seremonïau dyneiddiol (digrefydd).




Pa lyfrau wnaeth ddylanwadu arnat fel darllenwr ifanc?

Yn ifanc, byddwn i'n mynd â llyfrau i bob man gyda fi, fel rhyw fath o comfort blanket. Hyd yn oed heddiw, aiff ddim i apwyntiad meddygol heb lyfr yn fy mag!

Darllenais gymaint o lyfrau mae'n anodd i mi ddewis un neu ddau. Roeddwn i'n ddwli ar lyfrau Enid Blyton, Roald Dahl a Jacqueline Wilson. Ges i set o 'glasuron y plant' i fy mhen-blwydd yn 8 oed: A Little Princess, The Railway Children, What Katy Did a'r lleill.

Ond un llyfr wnaeth argraff fawr arnaf fi oedd Ballet Shoes, gan Noel Streatfeild. Cefais gopi fuodd yn perthyn i fy mam, ac roeddwn i wrth fy modd gyda stori'r tair chwaer fentrus a'r disgrifiadau o fywyd yn y theatr a'r ysgol berfformio.



Beth wnaeth dy ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu llyfrau?

Roeddwn i wrth fy modd yn dyfeisio straeon yn blentyn, a chyn oeddwn i'n medru eu hysgrifennu nhw ar bapur fy hun, byddwn i'n gofyn i fy Nain wneud drosof fi! Roeddwn i'n mwynhau gwaith creadigol yn yr ysgol - drama, ysgrifennu straeon, barddoni, dyfeisio - ond ym mlwyddyn 6 yn Ysgol Dewi Sant Y Rhyl, enillais gwpan Eleanor Cotton am y stori fer orau, a dechreuais feddwl efallai byddai'n bosib, rhyw ddydd, i mi weld fy enw ar glawr llyfr.

Dechreuais ysgrifennu o ddifri pan oeddwn i'n tua 14 oed. Erbyn i mi adael yr ysgol uwchradd roeddwn i wedi cwblhau sawl nofel ffantasi, un hanesyddol a nofelig arswyd. Ysgrifennais er mwynhad pryd hynny, a dangosais fy ngwaith i neb arall, achos doedd fy sgiliau golygu ddim yn ddigon da i mi feddwl o ddifri am gyhoeddi fy ngwaith. Er bod y freuddwyd o fod yn awdur go iawn gwastad gen i, roeddwn i yn fy ugeiniau cyn i mi ddechrau meddwl o ddifri am gyhoeddi fy ngwaith.



REBECCA ROBERTS


Beth yw dy llyfr diweddaraf i bobl ifanc?

Fy nofel gyntaf i bobl ifanc yw #Helynt, stori am Rachel Ross, goth ifanc o'r Rhyl sy'n canfod cyfrinach am ei theulu.

Enillais Ysgoloriaeth Emyr Feddyg yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017, a'r wobwr oedd y cyfle i gael fy mentora gan awdur Cymraeg. Roeddwn i wedi edmygu Bethan Gwanas ers i mi ei chlywed hi'n siarad ar gwrs yng Nglan Llyn, ac wedi cyfarfod hi ar gysiau yn Nhŷ Newydd ar sawl achlysur ers hynny, felly roedd yn wych i gael ei hadborth hi ar #Helynt.

Penderfynais leoli #Helynt yn fy milltir sgwâr a thynnu ar rai o fy mhrofiadau personol wrth ei ysgrifennu. Mae gan Rachel a minnau nifer o bethau'n gyffredin - neiniau oedd yn berchen ar stondin farchnad haberdashery, hoffter o gerddoriaeth roc a'r un synnwyr digrifwch direidus. Allan o'r holl gymeriadau rydw i wedi eu creu, hi yw'r un tebycaf i fi o ran personoliaeth, ond ar ben hynny mae ganddi hi lond sach o hyder, dewrder a thipyn o ehofndra hefyd. Roedd dweud ei stori yn eithaf liberating, a wnes i fwynhau'r broses yn fawr iawn.

Man cychwyn y stori oedd fy mhrofiad o fod yn rhan o brosiect drama i godi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig. Gobeithies i greu stori fyddai'n helpu pobl ifanc i adnabod arwyddion camdriniaeth ddomestig, a hefyd at bwy allen nhw droi am gymorth; ond yn y broses o'i ysgrifennu ac wrth drafod â Bethan, tyfodd y llyfr yn rhywbeth mwy oedd yn delio â bwlio, anabledd, iselder a bod yn ofalwr ifanc. A thrwy'r cyfan, mae Rachel yn ceisio ei gorau i ganfod y gyfrinach mae ei mam wedi celu rhagddi, ac i ganfod hunaniaeth Shane, y dyn dirgel mae hi'n cyfarfod mewn clwb nos. Ges i gymaint o hwyl yn ei ysgrifennu, dwi'n gobeithio ca' i gyfle i ysgrifennu dilyniant ac ail ymweld â hi rywbryd eto.



**Enillydd Gwobr
Tir na n-Og 2021
Uwchradd**



Beth sy'n gwneud llyfr da?

Mae gen i radd Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, felly treuliais flynyddoedd yn dadansoddi testun ac yn gwrandao ar gyngor ar y 'rheolau ysgrifennu'. Fodd bynnag, mae'n anodd disgrifio be'n union sy'n gwneud llyfr da, achos mae llyfr da jest yn gweithio.

Mae yna ryw hyd a lledrith yn perthyn i lyfr da, rhywbeth annelwig sy'n dy gadw di'n troi'r tudalennau. Wrth i mi feddwl am fy hoff lyfrau mae'n anodd feddwl am rywbeth sydd ganddynt yn gyffredin, heblaw am sut maen nhw'n gwneud i mi deimlo wrth eu darllen.

Mae'r llyfrau gorau yn gwneud i mi deimlo fel petai'r awdur yn eistedd ar fy ysgwydd yn adrodd ei stori yn uniongyrchol i mi; neu dwi'n gweld digwyddiadau'r llyfr o flaen fy llygaid yn hytrach na'r geiriau ar y dudalen.

Oes gen ti hoff/gas gymeriad o ffilm neu stori?

Dwi'n hoff iawn o Matilda, o lyfr Roald Dahl. Hoffwn i gael ei phwerau hi!



Beth sydd orau - llyfr go iawn neu e- lyfr?

Llyfrau go iawn, yn bendant.





REBECCA ROBERTS



Pa neges sydd gen ti i ysbyrdoli darllenwyr/ysgrifenyddion ifanc?

Darllenwch. Mae bob llyfr yn ffenest ar fyd arall ac yn ffordd i ehangu dy orwelion.

O ran yr ysgrifennu... Pan oeddwn i'n ifanc doedd band llydan ddim yn bodoli, doedd yna ddim cymunedau ysgrifennu ar-lein, dim podlediadau, ac roedd cyflwyno dy waith yn golygu ei argraffu a mynd i'r swyddfa bost i bostio copi caled. Gweithgaredd unig iawn oedd ysgrifennu pryd hynny. Heddiw, fedrwn chi gysylltu ag ysgrifenyddion arall ledled y byd mewn chwinciad chwanner, rhannu dy waith gyda miloedd o ddarllenwyr eraill gyda clic, a hyd yn oed cyhoeddi llyfr heb adael dy ddesg!

Er bod pethau'n haws o lawer rŵan, rydw i'n falch i mi gael y profiad old school y ces i, achos heddiw dwi'n meddwl fod yna ormod o ganllawiau ac adborth a chynghor ar gael, ac mae'n anodd gwybod ar bwy i wrando! Rydw i o'r farn mai'r ffordd orau i ddatblygu safon eich gwaith yw drwy ddarllen, darllen, darllen ac ysgrifennu, ysgrifennu, ysgrifennu. Peidiwch â cheisio efelychu neb neu ddibynnu'n ormodol ar ddulliau neu gynghor rhywun arall. Gwrandewch ar reddf ac ar lais chi'ch hun.

Yn olaf, defnyddiwch eich Cymraeg! Am un peth, mae'n haws ymgysylltu â'r gweisg yng Nghymru nag y mae yn Lloegr; mae yna eisteddfodau a chyfleoedd mentora a chysiau ysgrifennu a gweithdai ar gael drwy sefydliadau fel yr Urdd a Chwmni'r Fran Wen. Gwnewch y gorau o feddu ar ddwy iaith.

Oes llyfr/prosiectau newydd ar y gorwel?



Oes, mae gen i gwpl o brosiectau ar waith ar hyn o bryd: dilyniant i Mudferwi (fy nofel gyntaf) a nofel arall i oedolion o'r enw Y Ddefodau. Yn ogystal, dwi'n gweithio ar 'Everyone Hate Brian', nofel Saesneg am fand roc o Sir y Fflint sy'n eithaf tebyg i #Helynt o ran naws.

Hoffwn i roi cynnig ar ysgrifennu nofel o safbwynt gwrywaidd ar ryw bwynt, ond mae gen i dipyn o waith i wneud cyn medraf gychwyn ar brosiect newydd!

Dathlodd Tŷ Newydd ei ben-blwydd yn 30ain oed yn ddiweddar. Sut brofiad oedd bod yno?



Mae Tŷ Newydd yn cynnig cyfle gwerthfawr i gwrdd â phobl o'r un anian â ti - pobl sy'n mwynhau llyfrau ac yn joio ysgrifennu, ac mae diwrnod yng nghwmni pobl felly wastad yn bleser! Ond yn bendant, mae cysiau Tŷ Newydd a'r tiwtoriaid yno wedi fy herio i - yn enwedig ar gychwyn fy ngyrfa - trwy fy ngwthio i allan o fy comfort zone, fy annog i archwilio profiadau personol ac emosiynol er mwyn cyfoethogi fy ngwaith, a thrwy fy annog i fentro i dir newydd, anghyfarwydd. Rydw i'n dysgu rhywbeth newydd amdanaf i'n hun, neu'n datblygu syniad newydd bob tro i mi fynd ar un o'r cysiau. Cymaint yw dylanwad y lle arnaf fi, rydw i wedi danfon arwres fy nofel nesaf yno ar gwrs ysgrifennu.

